**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**–**
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

4 Ebrill 2022

Annwyl Weinidog,

Ysgrifennaf atoch i ofyn am eglurhad ynghylch datganiad a wnaed gan Dawn Bowden AS, y Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon, yn ei hymateb i ddadl y Pwyllgor ar ein hadroddiad, "Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm."
Yn ei hymateb, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"Mae'n amlwg fod y diwydiant o'r farn fod gwell cyfleusterau i yrwyr yn hanfodol er mwyn cynyddu cyfraddau recriwtio, ac rydym wedi sôn am hynny eisoes. Felly, roedd Llywodraeth Cymru yn siomedig o glywed y bydd y £32.5 miliwn o gyllid newydd i wella cyfleusterau parcio lorïau ar gael i Loegr yn unig. Er bod y rhain yn faterion a gedwir yn ôl, rydym wedi sefydlu grwpiau traws-bolisi i adolygu'r problemau diweddaraf, gan gynnwys hyfforddiant ac amodau ar ochr y ffordd. Rydym yn mynd ati i weithio ar nifer o feysydd i fynd i'r afael â'r sector a'i gefnogi, ac mae hyn yn cynnwys gweithio ar ystod o fesurau lliniaru ac ymyriadau gydag amrywiol adrannau Llywodraeth y DU, yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau a chyrff cynrychiadol ym maes logisteg."

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech egluro barn Llywodraeth Cymru ar y setliad datganoli mewn perthynas â hyfforddi gyrwyr, amodau ar ochr y ffordd a chyfleusterau. Yn benodol, byddwn yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am i ba raddau y mae pwerau yn y maes hwn wedi'u cadw yn ôl, o gofio bod pwerau mewn perthynas â sgiliau a phrentisiaethau, seilwaith priffyrdd a chynllunio defnydd tir wedi'u datganoli. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellid defnyddio'r meysydd datganoledig hyn i wella'r hyfforddiant sydd ar gael i yrwyr, y cyfleusterau ar ochr y ffordd ac mewn mannau gorffwys, a'r cyfleusterau mewn safleoedd i gwsmeriaid cludiant nwyddau yng Nghymru. Mae goblygiadau i'ch safbwynt o ran argymhellion 1, 3, 4 a 5 y Pwyllgor yn ein hadroddiad.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb erbyn 21 Ebrill, fel y gall yr Aelodau ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.